## CROESO I GAERDYDD, PRIFDDINAS CYMRU!

Rydym yn falch o fod yn cynnal yr UEFA Champions League Final, digwyddiad chwaraeon mwyaf 2017.

Gydag ein stadiwm cenedlaethol yng nghanol y ddinas, mae dyddiau chwaraeon fel hyn yn dod ag atmosffer arbennig i Gaerdydd, a hwnnw'n brofiad bythgofiadwy hefyd.

Mae'r ddinas wedi hen arfer â chroesawu pobl o bob cwr o'r byd i fwynhau digwyddiadau chwaraeon mawr, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gynnal y digwyddiad pêl-droed hwn.

Mae pobl o Gaerdydd yn falch iawn o'u dinas, sy'n cael ei hadnabod yn y ddinas orau yn y DU ar gyfer ansawdd bywyd ac unig brifddinas ddwyieithog Prydain.

Mae chwaraeon yn rhan fawr o fywyd y ddinas ac yn ysgogi pobl, o chwaraewyr pêl-droed penigamp ac athletwyr Olympaidd â medalau aur i bobl sy'n cymryd rhan wrth redeg yn y parc bob wythnos.

Os rydych yn dod i Gaerdydd am y tro cyntaf, gobeithiwn y byddwch yn gallu cael profiad llawn o'r ddinas. Gall hynny gynnwys mynd am dro yn ein parciau, ymweld â Bae Caerdydd cosmopolitan neu fwynhau'r bywyd nos gwych sydd yma.

Hoffwn gynnig croeso cynnes Cymreig i chi a'ch gweld chi eto'n fuan!

CARDIFF CAERDYDD visitcardiff.com

WALES | CYMRU

FINAL CAERDYDD·2017

Juventus F.C.

REAL MADRID C.F.

**Dydd Sadwrn Mehefin 3 2017**
**19.45**
**Stadiwm Genedlaethol Cymru**

## CYRRAEDD CAERDYDD

Mae Stadiwm Genedlaethol Cymru wedi'i leoli yng nghanol y ddinas, gyda chysylltiadau trafnidiaeth da. Pum munud yn unig yw'r stadiwm o Orsaf Ganolog Caerdydd a hanner awr o waith cerdded o feysydd parcio bysus cefnogwyr a'r safleoedd parcio a theithio/parcio a cherdded.

**Ar awyren:**
Mae Maes Awyr Caerdydd 12 milltir/19km o ganol y ddinas. Mae gwasanaethau bws uniongyrchol i ganol y ddinas. T9 Cardiff Airport Express, amser teithio tua 40 munud, yn gadael pob 30munud.

Tocynnau o £5.00, gellir talu mewn ewros - €7 un ffordd, €10 dwy ffordd

**O'r maes awyr:** bws cyntaf ac olaf 05.00 ac 24.00
**I'r maes awyr:** bws cyntaf ac olaf 04.15 ac 23.15

Mae posib teithio i'r ddinas ar drên hefyd.
**Rhagor o wybodaeth ar www.cardiff-airport.com**

Mae Maes Awyr Bryste 49milltir/79km o Gaerdydd. Y ffordd orau o deithio i Gaerdydd yw ar fws. Tocynnau National Express o £35.00. Neu mae posib defnyddio bws lleol i orsafoedd Bristol Temple Meads neu Bristol Parkway i deithio ymlaen.
**Rhagor o wybodaeth ar www.bristolairport.co.uk**

Mae Maes Awyr Birmingham 115milltir/185km o Gaerdydd. Y ffordd orau o deithio i Gaerdydd y war fws. Tocynnau National Express o £35.00. Neu mae posib defnyddio'r bws gwennol i Orsaf Ryngwladol Birmingham i deithio ymlaen. **Rhagor o wybodaeth ar www.birminghamairport.co.uk**

London Heathrow yw'r agosaf o feysydd awyr Llundain at Gaerdydd. Y ffyrdd orau o deithio i Gaerdydd o Heathrow yw drwy fws National Express neu ar drên Heathrow Express (tocynnau o £22.00) i Orsaf London Paddington i deithio ymlaen i Orsaf Caerdydd Ganolog. **Rhagor o wybodaeth am London Heathrow ar www.heathrow.com**

Gellir hedfan i feysydd awyr eraill Llundain ond Heathrow yw'r mwyaf cyfleus i gyrraedd Caerdydd.

**Ar drên:**
Mae gan Orsaf Ganolog Caerdydd, sydd wedi'i leoli yn agos at Stadiwm Genedlaethol Cymru, gysylltiadau da i Lundain ac i ddinasoedd eraill y DU. Mae Gorsaf Heol y Frenhines hefyd wedi'i leoli yng nghanol y ddinas gyda chysylltiadau cyson i'r ardal leol.
**Rhagor o wybodaeth ar www.nationalrail.co.uk**

**Ar fws:**
Mae nifer o gwmnïau bysiau â gwasanaethau i Gaerdydd. Mae hyn yn cynnwys National Express sy'n cynnig gwasanaeth fysiau i Gaerdydd o ddinasoedd ar draws y DU gan gynnwys Llundain, Abertawe, Birmingham a Manceinion. Mae modd cerdded o safle gollwng y bysiau i Stadiwm Genedlaethol Cymru.
**Rhagor o wybodaeth ar www.nationalexpress.com**




**Mewn car:**
Os ydych chi'n teithio mewn car, mae Caerdydd wedi'i leoli ar draffordd yr M4 ac oddeutu 100 milltir/160km o Lundain. Mae tollbont ar y M4 yn dod i mewn i Gaerdydd – y gost i gar yw £6.70, bws bach £13.40 a choets £20.00.

Nid oes parcio i gefnogwyr yng nghanol y ddinas, fodd bynnag mae meysydd parcio a theithio a pharcio a cherdded pwrpasol ar gael. **Rhagor o wybodaeth ar www.cardiff2017.wales/fantravel**

## AWGRYMIADAU I DEITHWYR

- Cynlluniwch i gyrraedd Caerdydd erbyn 10.00 ar ddiwrnod y gêm os ydych chi'n teithio mewn car (neu goets) a 13.00 os ydych yn teithio ar y trên i fwynhau'r UEFA Champions League Festival.
- Caniatewch amser ychwanegol i fynd drwy'r gwahanol gamau diogelwch yn y stadiwm. Cynlluniwch i beidio cyrraedd y stadiwm ddim hwyrach na 17.45 0 i osgoi colli unrhyw ran o'r gêm neu'r seremoni o flaen llaw.
- Ar ôl y gêm, beth am aros a mwynhau popeth sydd gan y ddinas i'w chynnig gan y bydd trafnidiaeth yn brysur iawn wedi'r chwiban olaf.

- Am y wybodaeth a'r cyngor teithio ddiweddaraf; dilynwch ni ar Twitter @cardiff17travel a defnyddiwch Ap 'Spectator Mobility' sydd ar gael i'w lawr lwytho o **www.Cardiff2017.Wales/fantravel**


## CYRRAEDD Y STADIWM

O Churchill Way (man cyfarfod swyddogol i gefnogwyr Real Madrid)

Mae Churchill Way tua 15 munud o waith cerdded o'r stadiwm. Dilynwch yr arwyddion a chyfarwyddiadau gan stiwardiaid i gyrraedd drwy'r giatiau 1,2 a 3.

O Callaghan Square (man cyfarfod swyddogol i gefnogwyr Juventus)

Mae Callaghan Square tua 10 munud o waith cerdded o'r stadiwm. Dilynwch yr arwyddion a chyfarwyddiadau gan y stiwardiaid i gyrraedd drwy'r giatiau 5,6 a 7.




## YN Y STADIWM

**Gwybodaeth stadiwm**
Dilynwch yr arwyddion a mynd i mewn i'r stadiwm drwy'r fynedfa a ddangosir ar y map ar eich tocyn i gyrraedd eich sedd ddynodedig. Dylech gynllunio i gyrraedd y stadiwm erbyn 17.45 er mwyn caniatáu digon o amser i fynd drwy'r camau diogelwch a gwirio tocynnau.

Bydd y stadiwm ar agor o **16.45** gyda'r gic gyntaf am **19.45** (amser lleol).

Gall yr oriau agor newid am resymau diogelwch.

Peidiwch â chario gormod – na fydd bagiau neu boteli (plastig neu wydr) yn cael eu caniatáu i mewn i'r stadiwm.

Cadwch eich tocyn yn saff a'n barod i'w harchwilio wrth i chi nesáu at y stadiwm.

Ni fydd tocynnau yn cael ei roi yn lle rhai sydd wedi'u colli neu eu dwyn ac ni fydd deiliaid tocynnau ffug yn cael mynediad i'r stadiwm.

Os gwelwch yn dda darllenwch y telerau ac amodau sydd wedi'u hargraffu ar gefn eich tocyn yn ofalus.

**Rheolau a rheoliadau'r Stadiwm**
Drwy fynd i mewn i'r stadiwm, rydych yn caniatáu i'ch llun a'ch llais gael eu defnyddio ar gyfer lluniau, darlledu byw ac wedi'i recordio, lluniau neu recordiadau sain o'r digwyddiad ar adeg y digwyddiad ac yn y dyfodol.

Byddwch hefyd yn ymrwymo i ddilyn cyfarwyddiadau swyddogion yr heddlu, personél yr adran dân, timau achub, personél diogelwch, cyhoeddwyr y stadiwm, stiwardiaid neu wirfoddolwyr.

Mae personél diogelwch yn cael eu hawdurdodi gan drefnwyr y digwyddiad i wrthod mynediad i unrhyw un o dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol, rhai sy'n cario arfau neu ddeunydd peryglus eraill, neu unrhyw un sy'n peri risg i ddiogelwch ymwelwyr eraill neu i'r stadiwm. Bydd unrhyw drosedd gweinyddol yn cael ei drin yn unol â rheoliadau'r heddlu lleol.

**Eitemau cyfyngedig**

**Yn syth cyn i chi deithio ewch i www.cardiff2017.wales/stadium** am y wybodaeth ddiweddaraf am oriau agor y giatiau a pha eitemau y gallwch ac na allwch ddod i mewn i'r stadiwm.

## NEGES LLYWYDD UEFA

Mae wythnos yr UEFA Champions League Final bob amser yn un cofiadwy, wrth i ni ddisgwyl yn eiddgar am y gêm fawr a dathlu gwahanol agweddau o bêl-droed yn yr UEFA Champions Festival bob blwyddyn.

Bydd yr ŵyl, sy'n cael ei chynnal eleni yn ardal Bae Caerdydd o'r brifddinas, yn cynnwys yr ystod eang arferol o weithgareddau difyr sy'n ymwneud â phêl-droed i gefnogwyr eu mwynhau wrth baratoi tuag at y gêm yn Stadiwm Genedlaethol Cymru ddiwedd yr wythnos. Bydd awyrgylch hwyliog yno'n sicr – yn cynnig yr arweiniad perffaith i brif achlysur pêl-droed clwb Ewropeaidd.

Mae hud arbennig a pharhaus am yr UEFA Champions League. Dyma'r gystadleuaeth y mae chwaraewyr gorau'r byd eisiau ei hennill. Rydym eisoes wedi cael blas ar dymor gwych yn llawn o'r gorau y gall bêl-droed clwb Ewropeaidd ei gynnig ac mae'r rownd derfynol yn addo cyffro ac adloniant. Fel y cefnogwyr, rydym yn edrych ymlaen at noson fythgofiadwy yng Nghaerdydd, wedi ei nodi gan ysbryd o barch a chwarae teg.

Mae cefnogwyr yn hanfodol i bêl-droed, a bydd cefnogwyr y ddau dîm yn goleuo'r rownd derfynol ac yr UEFA Champions Festival. Cafodd record ei thorri'r llynedd gyda 420,000 o ymwelwyr yn Milan ac rydym yn gobeithio caiff y record yna ei thorri eleni. Mae dinas Caerdydd yn disgwyl yn eiddgar am y cyfle i ddisgleirio ar lwyfan pêl-droed ac rydym yn sicr y bydd pawb yn dychwelyd adref gydag atgofion bythgofiadwy o'u hamser yno.

**Aleksander Čeferin**
**Llywydd UEFA**

#UCLfinal
UEFA.com

## UEFA CHAMPIONS FESTIVAL CARDIFF 2017

Bydd yr UEFA Champions Festival yn cael ei chynnal mewn lleoliad godidog ym Mae Caerdydd.

Gyda mwy o adloniant, cerddoriaeth, a gweithgareddau pêl-droed nag erioed o'r blaen gan UEFA a phartneriaid, hwn fydd y lle i fod yng Nghaerdydd yn ystod wythnos yr UEFA Champions League Final.

Mae mynediad i'r ŵyl yn rhad ac am ddim a bydd y digwyddiad yn rhoi cyfle i ymwelwyr fwynhau profiad gwirioneddol o'r UEFA Champions League yn un o ddinasoedd mwyaf angerddol am chwaraeon y byd.

**Dyma rai uchafbwyntiau:**

* Dewch i fwynhau seremoni agoriadol yr UEFA Champions Festival 2017 ar Ddydd Iau 1 Mehefin am 10.00 sy'n cynnwys croesawu'r tîws.
* Cymerwch lun gyda thîws yr UEFA Champions League ar lwyfan arbennig gyda golygfa drawiadol o'r Bae yn gefndir.
* Ewch am ymweliad i'r UEFA Champions Gallery i weld rhai o'r momentau mwyaf eiconig o gyn rowndiau terfynol yr UEFA Champions League – rhai'r dynion a'r merched – ac arddangosfa o grysau'r 32 clwb sydd wedi cymryd rhan yn yr UEFA Champions League y tymor hwn.
* Bydd yr adeilad Pierhead yn cael ei drawsnewid i mewn i'r UEFA Virtual Champions Arena a fydd yn cynnig profiad trochi realiti rhithwir lle gallwch CHI fod yn rhan o daith eich tîm i'r rownd derfynol.
* Dewch i gyfarfod cyn-sêr yr UEFA Champions League yn ystod un o'r sesiynau llofnodi gydag ein llysgenhadon.
* Gwyliwch gêm UEFA Ultimate Champions ar Ddydd Gwener 2 Mehefin am 16.00 lle bydd arwyr yr UEFA Champions League yn chwarae ar yr UEFA Champions Pitch, ein cae pump-bob-ochr yn arnofio ar ddŵr y Bae.
* Mwynhewch rhai o'r DJs, bandiau a pherfformwyr gorau yng Nghaerdydd a Chymru ar y UEFA Main Stage yn Roald Dahl Plass.
* Gwyliwch rhai o'r pêl-droedwyr ifanc gorau'r byd yn chwarae yn Nhwrnamaint Pencampwyr Ifanc Adidas ar Ddydd Gwener Mehefin 2.
* Profwch eich sgiliau pêl droed yn erbyn chwaraewyr rhydd ('freestylers') pêl droed byd-enwog yn un o'r sesiynau gweithgareddau wedi'i threfnu gan UEFA a'i phartneriaid.
* Cyfle i ennill gwobrau anhygoel a chasglu cofroddion o'r UEFA Champions Festival i'r teulu cyfan.

Bydd yr UEFA Champions Festival 2017 ar agor o Ddydd Iau Mehefin 1 tan Ddydd Sul Mehefin 4 am yr amseroedd isod:

Dydd Iau/Gwener 11.00-23.00
Dydd Sadwrn/Dydd Sul 11.00-17.00


Bydd y carnifal pêl-droed yn siŵr o greu awyrgylch gwych ym Mae Caerdydd felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhan ohoni!

**NODWCH:**
**NI FYDD YR UEFA CHAMPIONS LEAGUE FINAL YN CAEL EI DANGOS YN GYHOEDDUS YN YR ŴYL (NEU YN UNRHYW LEOLIAD ARALL YNG NGHAERDYDD) AR DDYDD SADWRN MEHEFIN 3.**

## UEFA CHAMPIONS FESTIVAL




## MAP CAERDYDD




## MYND O GWMPAS CAERDYDD

**Cerdded:**
Mae Caerdydd yn ddinas fach ac felly bydd yn lle gwych i gerdded o gwmpas ar ddiwrnod y rownd derfynol. Mae'r mannau cyfarfod cefnogwyr wedi'u lleoli'n dda ar gyfer yr holl ganolfannau trafnidiaeth leol a mannau o ddiddordeb. Wedi cyrraedd y ddinas, beth am fynd i'r UEFA Champions Festival ym Mae Caerdydd, sydd dafliad carreg i ffwrdd ar droed! Bydd gwirfoddolwyr (a elwir yn Bencampwyr) ar y llwybrau cerdded pwrpasol rhwng pwyntiau allweddol ar draws y ddinas i helpu eich cyfeirio at ben eich siwrne.

**Bysiau Lleol:**
Mae gan Gaerdydd rwydwaith bysiau lleol helaeth ac mae hyn yn ffordd wych i ddod o hyd ac archwilio ardaloedd y tu allan i ganol y ddinas. **Am fwy o wybodaeth, ewch i www.traveline.cymru**

**Tacsis:**
Bydd tacsis a cherbydau llogi preifat yn casglu a gollwng teithwyr ar Boulevard de Nantes.

## 11 GORAU CAERDYDD

1. **Castell Caerdydd:** Dyma'r tîws yng nghoron Caerdydd. Caer groesawgar yng nghanol y ddinas. (Ni chaniateir mynediad i'r cyhoedd i'r castell ar ddydd Gwener na dydd Sadwrn).
2. **Amgueddfa Genedlaethol Cymru:** Mae gan yr amgueddfa'r casgliad mwyaf o gelf argraffiadol y tu allan i Baris, ac ambell i ddeinosor...
3. **Stadiwm Genedlaethol Cymru:** Stadiwm dan do fwyaf Ewrop. Rydym yn falch iawn o'n stadiwm genedlaethol sy'n cynnal pob math o adloniant, cyngherddau a digwyddiadau!
4. **Canolfan Mileniwm Cymru:** Ein ffwrnais greadigol o ysbrydoliaeth sy'n cynnig dawns, theatr gerddorol, opera, llenyddiaeth, taith arbennig a bwyd a diod. Bydd hefyd yn lleoliad ar gyfer yr UEFA Champions Gallery, felly cofiwch alw heibio i gael cyfle i gymryd rhan yn rhai o'r gweithdai i blant sydd wedi'u trefnu yn ystod yr ŵyl.
5. **Techniquest:** Rhowch eich het wyddonol ymlaen er mwyn ymchwilio a dysgu waeth beth fo'ch oed!
6. **Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd a Syrffio Dan Do:** Rafftio, caiacio a syrffio – darperir dillad dŵr!
7. **Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan ac Eglwys Gadeiriol Llandaf:** Ewch yn ôl mewn amser – mewnwelediad ardderchog i hanes a datblygiad Cymru drwy adeiladau a'r ffordd o fyw.
8. **Siopa:** Ewch ar goll yn yr arcedau o oes Fictoria ac Edward – cymysgedd go iawn o siopau stryd fawr, rhyngwladol ac annibynnol.
9. **Bae Caerdydd a Morglawdd Bae Caerdydd:** Mae ein dociau ar eu newydd wedd bellach yn cynnig ffordd o fyw, adloniant, digwyddiadau, llety a llawer o fwytai gyda phopeth o fwyd Eidalaidd i Sbaenaidd!
10. **Caerdydd Werdd:** Parc Bute a Pharc y Rhath a'r Llyn – mae gan Gaerdydd mwy o fannau gwyrdd fesul person nac unrhyw ddinas graidd arall yn y DU.
11. **Neuadd y Ddinas Caerdydd:** Yng nghanol y ddinas, mae hwn yn ganolbwynt i un o ganolfannau dinesig gorau'r byd, ardal yn llawn adeiladau deniadol, gerddi wedi'u tirweddu a rhodfeydd â choed.

**Am ragor o wybodaeth ewch i www.VisitCardiff.com**




**Taflen Gwybodaeth i Gefnogwyr**
**3 Mehefin am 19.45**
**Stadiwm Genedlaethol Cymru**

## GWYBODAETH DDEFNYDDIOL

Canolfan Croeso Visit Cardiff
Yr Hen Lyfrgell, The Hayes, CF10 1BH
**Oriau agor:**
Dydd Llun tan Ddydd Sul 10.00-18.00

Wales Millennium Centre, Bute Place, Cardiff Bay, CF10 5AL
**Oriau agor:**
Dydd Llun tan Ddydd Sadwrn 10.00-18.00
Dydd Sul 10.00 – 16.00

www.visitcardiff.com
visitor@cardiff.gov.uk
+44 (0)29 2087 3573
@VisitCardiff
**#Cardiffis**

SICRHEWCH EICH BOD WEDI CYSYLLTU YNG NGHAERDYDD!
CHWILIWCH AM "CARDIFF FREE WI-FI" AR EICH DYFAIS

Mae Caerdydd yn un o'r dinasoedd sydd â'r mwyaf o gysylltedd digidol yn y DU, ac mae wedi newid y ffordd y mae'r ddinas wedi cysylltu.

- Wi-Fi AM DDIM ar y stryd
- Wi-Fi AM DDIM mewn adeiladau cyhoeddus
- Wi-Fi AM DDIM ar fysus Caerdydd a thrafnidiaeth Easyway
- Trowch y Wi-Fi ymlaen ar eich ffôn neu ddyfais
- Chwiliwch am Cardiff Free Wi-Fi yn y rhestr o rwydweithiau Wi-Fi sydd ar gael
- Dewiswch Cardiff Free Wi-Fi ac arhoswch am y ffenestr newydd
- Dewiswch pa iaith yr hoffech ei defnyddio
- Cliciwch 'Get Online'
- Nodwch ychydig o wybodaeth sylfaenol

## ARGYFYNGAU

Ar gyfer galwadau di-argyfwng ffoniwch 101 o ffonau talu, sefydlog neu symudol.

999 yw'r rhif argyfwng swyddogol o ffonau talu, sefydlog neu symudol. Bydd galwadau hefyd yn cael eu dderbyn ar rif argyfwng Ewropeaidd 112.

Diweddariad diwethaf Mai 10, 2017 | Gall prisiau ac amseroedd amrywio. Mae'r holl amseroedd a nodir yn lleol.